**Gwybodaeth am y Cyfweliad**
**BA (Anrh) Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Gwaith Ieuenctid)**
**Tystysgrif Sylfaen mewn Gwaith Ieuenctid**

Diolch am gyflwyno cais ar gyfer ein rhaglen Gwaith Ieuenctid a Chymuned.  Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i'r maes Gwaith Ieuenctid ac mae galw mawr am ein graddedigion, felly dyma'r amser perffaith i ddechrau eich hyfforddiant fel gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol â chymwysterau proffesiynol.

Fel rhan o'n proses ymgeisio, hoffem eich gwahodd i gyfweliad gydag aelodau o'r Tîm Gwaith Ieuenctid a Chymunedol.  Fel arfer byddwch yn cael eich gwahodd i drafodaeth ar y campws a phroses gyfweld.

Bydd y cyfweliad fel arfer yn cael ei gynnal un i un ar ein campws yng Nghyncoed neu yn achlysurol trwy Microsoft Teams. Mae'r sesiwn drafod a'r cyfweliad yn gyfle i chi ddarganfod mwy am y rhaglen ac i ni ddod i adnabod ein gilydd fel y gallwch wneud penderfyniadau gwybodus am y cwrs ac i ni sicrhau mai ein rhaglen yw'r dewis gorau i chi.  Byddwn yn dechrau gyda thrafodaeth anffurfiol am gynnwys, strwythur a gofynion y cwrs a bydd cyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau, ac yna trafodaeth fer ar bwnc sy'n ymwneud â phobl ifanc a chymdeithas heddiw.

Wrth baratoi ar gyfer eich sesiwn drafod a'r cyfweliad, meddyliwch pam fod gennych ddiddordeb mewn gyrfa fel Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol a pharatowch restr o unrhyw gwestiynau sydd gennych. Mae'n ddefnyddiol dod ag unrhyw dystysgrifau sy'n cadarnhau eich cymwysterau a thystiolaeth o unrhyw gyrsiau hyfforddi perthnasol yr ydych wedi'u cyflawni. Mae hefyd yn ddefnyddiol cael crynodeb byr o unrhyw brofiad gwirfoddol neu gyflogedig yr ydych wedi ymgymryd ag ef mewn lleoliadau gwaith ieuenctid a chymunedol fel y gallwn drafod hyn yn fanylach gyda chi.

Mae'r tîm a minnau'n edrych ymlaen at ddod i'ch adnabod a dysgu mwy amdanoch chi.

Os hoffech gael eich cyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg, rhowch wybod i ni ymlaen llaw fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Os ydych chi'n rhydd i fynychu ar y dyddiad a roddwyd i chi, a wnewch chi gadarnhau hyn drwy www.ucas.com/dashboard cyn gynted â phosibl.  Os na allwch fynychu ac os hoffech ofyn am ddyddiad arall, anfonwch e-bost at applications@cardiffmet.ac.uk.  Fel arall, gallwch gysylltu â'r Adran Derbyniadau yn uniongyrchol ar 029 2041 6010.  Mae'n hollbwysig eich bod yn ymateb cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi diangen wrth brosesu eich cais drwy UCAS.

Dylid nodi unrhyw anghenion dysgu neu fynediad penodol yn glir ymlaen llaw fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi'n fuan.

Yr gywir

Dr Jo Aubrey

Dr Jo Aubrey

Cyfarwyddwr Rhaglen